## Cynigion a Gwelliannau i’w Trafod ar 7 Mehefin 2005

## Cynigion a gyflwynwyd ar 26 Mai 2005

**NDM2466 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynlluniad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Mick Bates (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) i’w Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn lle Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru).

**NDM2467 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) i’w Bwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn lle Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru).

**NDM2468 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol) i’w Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn lle Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru).

**NDM2469 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2005.

**NDM2470 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2005 mewn perthynas â’r drafft o’r Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol)(Cymru) 2005; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol)(Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2005; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2005 ; a
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai.

**NDM2471 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mai 2005.

**NDM2472 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2005 mewn perthynas â'r drafft o'r Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mai 2005; ac
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mai 2005; ac
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2005.

**NDM2473 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2005.

**NDM2474 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2005 mewn perthynas â'r drafft o'r Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2005; ac
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2005; ac
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2005.

**NDM2475 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mai 2005 ar ddrafft o Reoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Esboniadau ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol) 2005; ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Esboniadau ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005; ac
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005; ac

2.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2005 ar ddrafft o Reoliadau Addysg (Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2005; ac

b) Yn cymeradwyo bod y drafft o'r Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005; ac
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005; ac
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2005.

## Cynigion a gyflwynwyd ar 27 Mai 2005

**NDM2477 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfarwyddo'r llywodraeth i beidio â'i gwneud yn ofynnol i gardiau adnabod gael eu defnyddio i gael mynediad i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sydd o fewn cylch gwaith y Cynulliad.

**NDM2479 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan nodi na fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na'n lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau a ddirprwywyd gan y cynnig hwn, wrth arfer ei bwerau yn adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998:

Cytuno i ddirprwyo holl swyddogaethau y Cynulliad Cenedlaethol a gaiff eu cynnwys yn Neddf Addysg 2005 i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio’r rhai na ellir eu dirprwyo felly yn gyfreithiol.

*Gwneir y ddirprwyaeth hon gan wybod y caiff y swyddogaethau hynny, fel y bo’n briodol, eu dirprwyo ymhellach i Weinidogion priodol y Cynulliad ac i staff.*

*Gellir dod o hyd i Ddeddf Addysg 2005 drwy ddefnyddio’r hypergyswllt canlynol:*
http://www.hmso.gov.uk/acts/acts2005/20050018.htm

**NDM2478 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheolau Sefydlog 8.4 ac 11.1 yn ethol Jeff Cuthbert (Llafur) i’w Bwyllgor Deddfau yn lle Sandy Mewies (Llafur).

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 2 Mehefin 2005

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau isod i gynigion:

**NDM2477**

**David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

‘ a chyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau nad oes angen Cardiau Adnabod er mwyn cael mynediad at wasanaethau nas datganolwyd.’